

Y Wennol Newydd

Straeon gan dysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 3

Pawb yn Elwa

gan Rob Evans

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu â'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r poen yn cynyddu pob diwrnod - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus mod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn efo bob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.

Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddydd gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wllan cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.

Maen nhw'n dweud y siopau trin gwallt fydd yr olaf i ail agor a chlywais rywun yn sôn am ryw bryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o'n ngof ymhell cyn hynny!

Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu olau hardd. Roedd yr adar yn brysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn

ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "Sbia ar y pen yna," dywedodd yr un "bydden ni ddim llawer o amser yn adeiladu nyth yn fanna!" "Ti'n iawn" meddai'r llall "mae digon o ddefnydd yna i greu nyth yn ddigon mawr i chwech o blant!"

Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau yn trio fy ngorau i ddangos dim diddordeb o gwbl ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Na fyddaf yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond mi oedd un ffordd byddaf yn gallu helpu, a helpu fi ar yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i thycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond erbyn mis Gorffennaf mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu fi edrychwch ar Twitter achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar Twitter ac yn twitio'r stori i'r holl fyd.

Cadwch yn saff!

A oes gennych chi stori i rannu?

Peidiwch â bod yn swil, mi fyddaf yn falch iawn o'ch cyfraniad. Mi fydd cyfrannu yn cadw chi mewn cysylltiad â'r iaith ac mae'r profiad o ysgrifennu yn rhoi mwy o amser i chi ganolbwyntio ar fynegi eich hun ac mi fydd hynny, yn y pendraw, yn gymorth i chi pan dach chi'n sgwrsio.

Danfônwch eich cyfraniad at bobwennol@ntlworld.com

Hanes Teuluol

gan John Aubrey

Pan oeddwn yn grwt bychan mewn pentref yn Ne-orllewin Cymru clywais am y tro cyntaf stori adroddwyd yn ein teulu am berthynas yn adeg ganol y 19eg ganrif oedd yn bresennol yn angladd ei gŵr cyntaf ond ar fraich ei ail ŵr! Mae'n stori ryfeddol, braidd yn anghredadwy a wnaeth gyffroi fy chwilfrydedd am esboniad. Fodd bynnag, nid oedd tan flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, mewn gwirionedd, ar ôl i mi ymddeol, cyn i mi fedru archwilio'r stori bellach na'r ffeithiau hysbys. Yn ffodus erbyn hyn mae twf rhyfeddol o gofnodion wedi'u digideiddio, a pheiriannau chwilio ar-lein hefyd yn gwneud ymchwilio am wybodaeth ychwanegol tipyn yn haws.

Yn ôl yr hanes roedd y gŵr cyntaf a'i frawd hŷn, ynghyd â nifer o lowyr eraill wedi colli eu bywydau yn 1852, pan wnaeth llif o ddŵr dreiddio yn sydyn i mewn i'r pwll glo lle'r oedd y glowyr wrth eu gwaith. Er i achubwyr ddod o hyd i rai o'r cyrff fu eraill tu hwnt iddynt ymhellach yn y pwll, a thybiedig yn farw. Cafodd y wraig weddw alarus ei gadael yn amddifad, gyda dau o blant ifanc a hyn can mlynedd cyn cymorth y 'Wladwriaeth Les' a 'Lles Cymdeithasol' ac yn ddibynnol ar unrhyw gymorth gan deulu a ffrindiau caredig. Yng nghyfrifiad 1851 dim ond blwyddyn cyn y trychineb gweler y cwpl ynghyd a'u mab dwy flwydd oed a lletywr, 20 oed, glöwr hefyd yn byw yn y tŷ. Ganwyd merch iddynt yn hwyrach yn y flwyddyn honno.

Ychydig dros ddwy flynedd ar ôl y trychineb priododd y weddw a'r lletywr ac yn ychwanegol at y ddau blentyn o'i phriodas gyntaf, ganwyd plant eu hun iddynt. Naw mlynedd ar ôl y trychineb wedi'r dyfroedd yn y pwll gilio daethant o hyd i gyrff y ddau frawd. Mae'n debyg iddynt lwyddo dianc y llif a chyrraedd siambr dan y ddaear yn uwch na lefel y dŵr. Yno cawsant eu darganfod yn eistedd ym mreichiau gilydd yn aros yn gaeth ac yn disgwyl eu tynged. Claddwyd eu gweddillion gyda'i gilydd ym mynwent capel lleol.

Y brawd iau oedd fy hen-dad-cu.

Gwanwyn 2020

gan Shelagh Fishlock

Mae gelyn anweledig
rhyngom ni

Sy'n anfon saethau creulon
aton ni.

Ac mae pobl wedi marw
hebom ni

Mae gwleidyddion yn dweud storis
wrthon ni

Am ddatrys y problemau
dros y byd.

Er bod bywyd dal yn boenus
i ni i gyd.

Ond mae'r gwanwyn wedi cyrraedd
erbyn hyn.

Mae ŵyn yn prancio eto
ar y bryn.

A gorchuddir coed y dre
â blodau gwyn.

Prydferth y byd yw gobaith
mawr i fi

I weld dyfodol gwell
dod aton ni

Fel natur, byddwn ni
yma o hyd.

Diwrnod i'w Gofio

gan Martin Jones

Rydw i wasted wedi mwynhau ffotograffiaeth, a chan fy mod i dipyn yn hen-ffasiwn, rydw i'n mwynhau argraffu fy lluniau a'u cadw mewn albymau. Ond dros y blynyddoedd diwethaf, rydw i wedi methu dal i fyny efo llenwi'r albymau, ac roedd gen i bentwr o luniau wedi'u hargraffu yn nrôr fy nesg. Felly, rhywbeth positif am y Cyfnod Cloi oedd yr amser i fynd i'r afael â'r gwaith dymunol o drefnu'r lluniau hyn.

Ac yn wir, mae hi wedi bod yn ddymunol iawn yn edrych ar luniau o'r teulu, teithiau cerdded, gwyliau ac yn y blaen, ac mae llanw o atgofion wedi dod yn ôl ataf i. Yn enwedig, atgofwyd fi am ddiwrnod i'w gofio pan ymwelon ni â Sbaen cwpl o flynyddoedd yn ôl, a dyma stori'r diwrnod cofiadwy hwnnw.

Codon ni'n gynnar. Roedden ni wedi cyrraedd y gwesty ym Maes Awyr Madrid y noson gynt, a nawr oedden ni'n ysu am ddechrau'n taith ar draws gwastatir enfawr La Mancha. Ar ôl brecwast ardderchog - gan gynnwys plât mawr o bethau heb gluten i fi - casglon ni'n gar, a bant â ni ar y draffordd allan o Fadrid tuag at y de.

Mae'n rhaid i fi gyfaddef doedd y rhan gyntaf o'r daith ddim yn ddiddorol wrth i ni yrru trwy ardal diwidiannol Madrid, ond cyn bo hir roedden ni'n agosáu at Aranjuez, cartref hen balas haf teulu brenhinol Sbaen gyda'i gerddi rhyfeddol (ysbrydoliaeth ar gyfer y cyfansoddiad cerddorol enwog "Concierto de Aranjuez").

Roedd y tywydd yn hyfryd – yn heulog ond ddim yn rhy boeth – a threulion ni weddill y bore'n crwydro trwy'r gerddi llonydd. Ond erbyn hanner awr wedi un, roedd chwant bwyd arnon ni, felly aethon ni i fwyty ger y gerddi i gael pryd o fwyd (gan gynnwys mefus o Aranjuez ei hun). Wedyn, ymwelon ni â'r palas, lle gwelon ni nifer o ystafelloedd o gyfnodau gwahanol yr adeilad.

Tua phedwar o'r gloch, gadawon ni Aranjuez a chychwyn am Consuegra. Roedd y daith dros wastatir enfawr La Mancha ac roedd y cefn gwlad o'n cwmpas yn wastad am filltiroedd, ond yn fuan, ymhell i ffwrdd, gwelon ni fryn yn codi o'r gwastatir ac, yn sefyll arno, amlinell o sawl hen felin wynt - yr un melinau gwynt wedi'u disgrifio

yn y nofel enwog Don Quixote gan Miguel de Cervantes.

Wrth gyrraedd Consuegra, aethon ni'n gyntaf i'r gwesty. Roeddwn i wedi archebu ein hystafell ar y we, ac wrth gwrs, roedden ni wedi gweld lluniau o'r gwesty. Ond nid oedd y lluniau wedi ein paratoi ar gyfer pa mor fendigedig oedd y gwesty. Hen dŷ o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd e, wedi'i adeiladu o gwmpas patio mewnol llawn blodau ac ystafelloedd gwely ar y llawr cyntaf. Trwy'r gwesty i gyd, roedd hen ddodrefn, ac ym mhobman roedd swyn a llonyddwch. Roedd fel mynd yn ôl i oes o'r blaen - yn union fel enw'r gwesty (La Vida de Antes)! Ac roedd mwy - agoron ni'r caeadau ffenestri yn ein hystafell wely, a dyna olygfa wych o'r melinau gwynt ar y bryn.

Wrth lwc, roedden ni wedi cyrraedd mewn amser i ddringo'r bryn a threulion ni awr fendigedig yn cerdded o gwmpas y melinau gwynt. Wedyn, i ddod â'r diwrnod i ben, cawson ni bryd o fwyd ardderchog (gyda photel dda o win lleol!). Yn wir, roedd hi wedi bod yn ddiwrnod i'w gofio.

Cymru Mewn 17 Gwrthrych.....ac yn cyfri.....

gan Jan Hill-Tout, Ebrill 2020

Dw i'n bwy yn agos at amgueddfa Sain Ffagan a dw i'n ymweld â'r safle'n aml. Es i yna cyn Nadolig llynedd a gwelais lyfr yn y siop o'r enw "Cymru mewn 100 Gwrthrych" gan Andrew Green, ffotograffau gan Rolant Dafis.

Mae'r llyfr wedi cael ei gynhyrchu'n ofalus ac yn brydferth iawn. Mae'n disgrifio 100 gwrthrych Cymreig sy'n cynrychioli'r hanes a datblygiad y wlad o 230,000 cc i'r presennol. Er mwyn wella fy addysg, prynais i'r fersiwn Gymraeg, a nawr dw i'n rhoi cynnig ar ddarllen amdany'n nhw ac wedyn ymweld â nhw os yn bosib. Maen nhw i'w weld dros y wlad o Ynys Môn i Dŷ Ddewi, y rhan mwyaf mewn amgueddfeydd a'r lleill mewn llyfrgelloedd, eglwysi ac ati.

Mae'r llyfr wedi cael ei drefnu gyda'r gwrthrych hynaf yn gyntaf, sef llawfwyell Ogor Pontnewydd (c 230,000 cc) hyd at y presennol a'r gwrthrych mwyaf diweddar sef Arwydd Arfordir Cymru (2012). Wrth gwrs dych chi'n gallu darllen y llyfr yn nhrefn amser, neu bori trwodd a mwynhau'r straeon diddorol. Penderfynais drefnu fy narllen o gwmpas y lleoliadau yn agos i fy nghartref, wedyn tipyn bellach i ffwrdd er enghraifft Groes

Houelt yn Llanilltud Fawr a cherfiad Jesse yn y Fenni. Wedyn ardaloedd yn bellach i ffwrdd ond gyda llawer o wrthrychau yn agos at ei gilydd.

Dyna pam es i i Aberystwyth ym mis Ionawr eleni er mwyn ymweld ag Amgueddfa Ceredigion ac yn benodol i weld darnau arian o Fathdy Aberystwyth (1639 - 42), arian papur Banc Aberystwyth a Thregaron (hefyd yn cael ei adnabod fel Banc y Ddafad Du) (1810 - 14) a chasgliad o hetiau Cymreig (c1830). Dw i erioed wedi bod yn Aberystwyth o'r blaen ac roeddwn yn edrych ymlaen at yr ymweliad a hefyd i weld y llefydd gerllaw ble cafodd Hinterland ei ffilmio!

Cyrhaeddais i'r gwesty ar lan y môr yn Aberystwyth ar ôl daith hir ond hyfryd. Yn hytrach na fynd yn syth i Aberystwyth es i drwy fynyddoedd y Cambrian ac roedd y golygfeydd yn eithriadol. Ro'n i'n lwcus iawn i gael tywydd sych a chlir a hefyd i beidio torri i lawr achos does dim llawer o draffig ar y ffyrdd cul yma.

Ar ôl noson gyfforddus yn y gwesty a gyda fy map yn fy llaw es i i chwilio am Amgueddfa Aberystwyth yng nghanol y dref. Mae hi wedi cael ei sefydlu mewn hen sinema ac mae'r casgliad yn cael ei drefnu yn yr awditoriwm, felly mae'n amgueddfa anarferol. Es i'n syth i ffeindio fy ngrwrthrychau arbennig o'r llyfr. Yn gyntaf des i o hyd i'r hetiau Cymreig, wedyn darnau arian, ac roedden nhw'n ddiddorol. Ond roedd arian bapur Banc Aberystwyth a Tregaron yn arbennig o dda gyda nifer o ddefaid i ddangos eu gwerth a phlygiadau a staeniau i ddangos pa mor aml cawson nhw eu defnyddio. Dw i'n hoffi dychmygu'r porthmyn ar eu teithiau anodd gyda'r arian yma yn eu pcedi.

Bydd rhaid i fi fynd yn ôl i Aberystwyth oherwydd mae cymaint o wrthrychau diddorol yn y Llyfrgell Genedlaethol a dw i'n edrych ymlaen at eu gweld nhw. Ond nawr roedd hi'n amser i fynd adre, ailddechrau darllen a chynllunio fy nhaith nesa, efallai yn bellach i ffwrdd. Pwy a wŷr?

Perllan o'r Diwedd

gan Rob Evans

Ces i fy ngeni mewn rheithordy yn sir Fôn ac roedd gardd fawr yna. Roedd yr ardd yn bleser a rhyddhad mawr i fy nhad, bleser achos roedd o'n mwynhau garddio a rhyddhad achos roedd yn ffordd i gadw'r blaidd o'r drws. Roedd yn rheithor y plwyf am tua 10 mlynedd ac ychydig o flynyddoedd cyn i ni adael am y de mi wnaeth o blannu perllan. Roedd o wastad eisiau perllan.

Mae'n cymryd rhai blynyddoedd i gael ffrwyth o goedd afalau ac yn anffodus wnaeth o byth flasur un afal. Ond os perllan oedd o eisiau roedd o yn ei seithfed nef yn Saundersfoot. O dan yr holl fieri yn yr ardd gegin a oedd wedi cael ei anwybyddu am flynyddoedd roedd o leiaf bymtheg o goed afalau yn cuddio. Tebyg iawn bydd llawer ohonyn nhw wedi bod yn goed cynhenid Cymreig.

Roedd cnwd arbennig pob blwyddyn a Dad wedi cael paletau pren a stacio nhw yn y dairy, dyma le bydd yr afalau yn cael eu cadw dros y misoedd. Pleser mawr oedd agor drws y Dairy a chlywed oglau'r afalau. Roedden nhw'n para tan fis Chwefror o leiaf.

Pan wnaeth Dad ymddeol roedd rhaid dweud ffarwel wrth y coed afalau ond roedd o wrth ei fodd yn dweud helo wrth y ddau dŷ gwydr.

Yn yr holl dai dw i wedi byw ynddyn nhw dim ond unwaith ces i'r cyfle i blannu coed ffrwyth a hynny pan roedden ni'n byw ger Cleobury Mortimer yn sir Gaerwrangon. Ces i ddim llwyddiant o gwbl. Roedd y tŷ mewn lle cyn go uchel ac yn croesawu gwyntoedd cryfion o Gymru pob blwyddyn. Roedd y prosiect yna yn fater o orfoledd optimistaidd dros synnwyr cyffredin. Roeddwn i'n dechrau meddwl na fydda i byth yn gwireddu fy mreuddwyd o gael perllan.

Ond dyma fi yn byw yn Abertawe erbyn hyn ac mae'r tymheredd yn llawer mwy caredig. Anaml iawn dyn ni'n cael eira, mi wnaeth y 'Beast from the East' hyd yn oed newid ei feddwl a chadw draw. Yr unig beth yw does gen i ddim llawer o ardd ond pum mlynedd yn ôl mi wnes i ddatrys y broblem. Petaswn i'n eu plannu mewn rhes ar ongl o 45 gradd a thocio pob cangen yn agos at y bonyn pob blwyddyn mae'n bosib i mi gael 20 o goed yn yr ardd. Roedd rhaid cael fframwaith i'w cynnal nhw, roedd hynny'n waith trwm ond unwaith mae wedi ei wneud, dyna ni.

Pob blwyddyn dw i wedi bod yn ymladd i gadw'r glêr wyrdd i ffwrdd ac, o'r diwedd dw i wedi cyrraedd y flwyddyn pan allaf i gael ffrwyth.

Dw i'n falch iawn i ddweud bod pethau'n edrych yn addawol ac yn yr Hydref mi fydd ryw beth i flasau.

Mae pob coeden yn gynhenid i Gymru felly maen nhw'n dipyn bach yn sbesial!

Mi fydda i'n siŵr o sôn mwy amdany'n nhw nes ymlaen!

Geirfa

Pawb yn elwa

Pawb yn elwa—everyone gains
Sefyllfa—situation
Cynyddu—to increase
Yn gyson—regularly
Allan o reolaeth—out of control
Gorchuddio—to cover
Corongylch—halo
Gwlân cotwm—cotton wool
Gwar—nape
Allan o'n ngof—out of my mind
Lapio'n gynnes—wrapped up warm
Cyfarwydd—familiar
Digartref—homeless
Cydymdeimlo—to sympathise
Sefyllfa—situation
Cydio—grab
Toriad go iawn—a proper cut

Gwanwyn 2020

Anweledig—unseen
Saethau creulon—cruel arrows
Hebom ni—without us
Gwleidyddion—politicians
Gorchuddio—to cover

Hanes Teuluol

Perthynas—relation
Ar fraich—on the arm of
Rhyfeddol—amazing
Anghredadwy—unbelievable
Cyffroi—to excite
Chwilfrydedd—enthusiasm
Esboniad—explanation
Archwilio—to Research
Ffeithiau hysbys—known facts
Twf rhyfeddol—amazing increase
Peiriannau archwilio ar-lein—search engines
Ynghyd â—as well as
Glowyr—miners
Treiddio—to leak in
Achubwyr—rescuers
Gwraig weddw alarus—grieving widow
Amddifad—destitute
Gwladwriaeth les—health Service
Lles cymdeithasol—community care
Cyfrifiad—census
Lletywr—lodger

Dyfroedd—the waters
Cilio—to recede
Disgwyl eu tynged—await their fate
Gwanwyn 2020
Anweledig—unseen
Saethau creulon—cruel arrows
Hebom ni—without us
Gwleidyddion—politicians
Gorchuddio to cover
Diwrnod i'w gofio
Argraffu—to print
Dal i fyny—to keep up with
Mynd i'r afael—get down to
Ymweld â—to visit
Gwastatir—flatlands, plains
Ysbrydoliaeth—inspiration
Cyfansoddiad cerddorol—musical composition
Chwant bwyd—hunger
Cyfnodau gwahanol—different periods
Amlinell—a line
Caeadau—shutters

Cymru mewn 17 gwrthrych

Gwrthrych—object
Cynrychioli—to represent
Cc— BC (Cyn Crist)
Amgueddfeydd—museums
Llawfwyell—hand axe
Pori—to browse
Cerfiad—carving
Arian papur - bank notes
Yn hytrach na—instead of
Anarferol—unusual
Plygiadau—folds
Staeniau—stains
Pwy a wŷyr? - who knows?

Perllan o'r diwedd

Rheithordy—rectory
Rhyddhad—relief
Cadw'r blaidd o'r drws—keep the wolf from the door
Plwyf—parish
Perllan—orchard
Saethfed nef—seventh heaven
Mieri—undergrowth
Gardd gegin—kitchen garden
Coed cynhenid Cymreig—native Welsh trees
Paledau pren—wooden pallets
Clywed oglau—to smell

Geirfa

Tŷ gwydr—greenhouse

Sir Caerwrangon—Worcestershire

Llwyddiant—success

Croesawu—to welcome

Gorfoledd optimistaidd dros synnwyr

cyffredin—triumph of optimism over common sense

Gwireddu—to affirm (an ambition)

Tymheredd—temperature

Caredig—kind

Tocio—to prune

Bonyn—trunk

Cynnal—Support

Ymladd—to battle

Clêr wyrdd—greenfly